# WiFi GWLEDIG ...canllawiau sut i

ARLOESI GWYNEDD WLEDIG

Mae ardaloedd gwledig a phentrefi sydd â chysylltedd data annibynadwy neu ddim cysylltedd o gwbl yn wynebu risg y byddant yn colli cyfleoedd a manteision economaidd-gymdeithasol pwysig mewn byd cynyddol ddigidol.

Mae ymdrin â'r `ardaloedd di-gyswllt' hyn yn her allweddol i atal cymunedau Gwynedd ac ymwelwyr rhag cael eu torri i ffwrdd yn anfwriadol o gyfleusterau ar-lein hanfodol.

## * Ein Prosiect WiFi Aberdaron...

Yn 2016, gyda chymorth Arloesi Gwynedd Wledig, daeth Aberdaron yn bentref gyntaf yng Ngwynedd i gynnig cysylltiad WiFi cyhoeddus dibynadwy am ddim. Mae hyn wedi dod â llawer o fanteision i gefnogi busnesau cymunedol allweddol ac mae wedi gwella profiad i ymwelwyr yn gyffredinol.

Gwnaethpwyd hyn yn bosib gan fusnesau yn gweithio gyda'i gilydd i ddefnyddio'r Cysylltiad Band Eang Cyflym Iawn presennol er mwyn goresgyn y diffyg o ddata symudol a chysylltedd llais symudol gwael.




Os yw'ch cymuned neu grŵp o fusnesau cymunedol yn credu y gallai'r math hwn o fenter fod o fudd i chi, darllenwch y canllawiau rhagarweiniol byr hyn sy'n llawn awgrymiadau da am yr hyn y dylech ei ystyried...



“Pan fydd pobl yn mewngofnodi i'r gwasanaeth WiFi am ddim, mae angen cyfeiriadau e-bost ac rydym yn cynnig dewis i bobl dderbyn cyfres o e-gylchlythyrau sy'n amlinellu gwybodaeth ddefnyddiol a'r pethau anhygoel y gallwch eu gwneud yn Aberdaron a'r ardal gyfagos yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys yn y Gaeaf”

RACHEL ROBERTS
SWYDDOG ARLOESI GWYNEDD WLEDIG

**94% ymwelwyr : 6% pobl leol**
*Rhaniad defnyddwyr WiFi*

**48% yn mewngofnodi i ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol**
*Mwy o ymwybyddiaeth a siarad am yr ardal*

**8% yn mewngofnodi i archebu llety a gweithgareddau yn y pentref**
*Mwy o refeniw a chyfleoedd i werthu*

**28% yn mewngofnodi i gael mynediad at wybodaeth leol**
*Mwy o ymgysylltiad parhaus*

Arolwg Defnyddwyr WiFi Aberdaron 2017

✓ Mae'r adborth cychwynnol yn awgrymu bod yr amser mae cwsmeriaid ac ymwelwyr yn ei dreulio yng nghanol y pentref wedi cynyddu'n sylweddol ers cyflwyno'r parth WiFi am ddim.



peilota...dysgu...rhannu

ARLOESI GWYNEDD WLEDIG
MENTER MÔN

DYDDIAD DIWEDD Y PROSIECT Ionawr 2017
RHEOLWR Y PROSIECT Rachel Roberts

ARLOESI GWYNEDD WLEDIG

# camau ar gyfer... WiFi GWLEDIG llwyddiannus

## 1. Dewch at Eich Gilydd




- Cynhaliwch gyfarfod cychwynnol i drafod y syniad, gofynion a'r manteision o gyflwyno parth WiFi Gwledig yn eich ardal neu'ch pentref.
- Sicrhewch bod digon o fusnesau / rhanddeiliaid yn barod i ymrwymo a chefnogi'r prosiect. Rydym yn argymell o leiaf 3 busnes.

*...bydd angen i bawb weithio gyda'i gilydd i sicrhau bod y prosiect hwn yn gweithio'n llwyddiannus!*

- Roedd gan WiFi Aberdaron 5 busnes o ganol y pentref fel sylfaenwyr.




← Gwyliwch ein ffilm ar gyfer prosiect WiFi Aberdaron

## 2. Gwiriwch y Technoleg!



- Ystyriwch ddichonoldeb ehangach y prosiect ac os elllir defnyddio cysylltedd Band Eang Cyflym Iawn presennol neu newydd i greu hwb i barth WiFi cymunedol. Edrychwch i weld a oes gan yr ardal sydd i'w chynnwys, neu ardal gyfagos, fynediad at Fand Eang Cyflym Iawn, neu p'un a allant ei gael. *http://www.superfast-cymru.com*
- Penderfynodd Aberdaron ddefnyddio gwasanaeth a reolir ar y we i fonitro perfformiad y rhwydwaith ac argaeledd o bell er mwyn lleihau llwyth gwaith ar y gymuned a sicrhau y gellir ehangu yn gyflym a chydag ychydig iawn o gostau caledwedd ychwanegol.
- Bydd y caledwedd yn para oddeutu 5 mlynedd, ac felly mae'n hanfodol cynllunio ymlaen ar gyfer sut i'w amnewid.
- Cytunwch y bydd bob busnes sy'n cymryd rhan yn barod i ddefnyddio'r WiFi cymunedol newydd yn eu heiddo eu hunain, i gyfrannu at y costau rhedeg parhaus.

## 3. Gwnewch y Mwyaf o'r Manteision

- Hysbysebwch eich WiFi pentref am ddim i ymwelwyr.




- Mae nifer o gyfleoedd i gysylltu â phobl drwy WiFi i hyrwyddo busnesau / gwasanaethau lleol, gan gynnwys ar y dudalen gofrestru a gwefannau cyfryngau cymdeithasol penodol / gwefan / cylchlythyr / blog.
- Ceiswich gynnal ac adeiladu momentwm trwy greu cynnwys diddorol yn gyson drwy gydol y flwyddyn – er enghraifft, bob mis gall un busnes berchnogi y cyfryngau cymdeithasol cyn i fusnes arall 'gymryd drosodd' y mis dilynol.. Mae creu cynnwys yn allweddol i sicrhau ymgysylltiad ystyrlon gyda chwsmeriaid ac ymwelwyr.




am fwy o wybodaeth am y prosiect hwn ewch i

www.arloesigwyneddwledig.com
@ArloesiGwyneddWledig
@ArloesiGwynedd

## Cynlluniwch Eich Prosiect...

**A.** **YMWELIAD Â'R SAFLE** i sefydlu dichonoldeb rhwydwaith pentref a safle'r hwb Band Eang Cyflym Iawn.

**B.** **GWERTHUSWCH** bod llwybrau clir di-rwystr ar gael i'r WiFi gan gychwyn o'r hwb ac yna o bob pwynt cysylltu potensial ar adeiladau o fewn 100m i'w gilydd.

**C.** **CRËWCH FANYLEB CAIS** gan gynnwys manylion ysgrifenedig a lluniau o bob un o'r pwyntiau cyswllt / golygfeydd posibl o bob un o'r adeiladau.

**D.** **ANFONWCH Y CAIS** i gyflenwyr posibl ar gyfer y gwasanaethau a chaledwedd y byddwch eu hangen.

**E.** **DEWISWCH GYNNIG / CYNIGION** sy'n cyd-fynd orau â'r fanyleb, cyllideb ac amserlenni. Dewisodd Aberdaron ddau gyflenwr: un i ddarparu'r system WiFi a chysylltedd, a'r llall i'w gosod.

**F.** **YMWELIAD GAN Y CYFLENWR** i drafod cynllun drafft y rhwydwaith ac yna creu a chyfathrebu cynllun gosodiad manwl.

**G.** **PRYNWCH YR OFFER AC AMSERLENNWCH PRYD I'W OSOD** - roedd rhwydwaith gosodiad Aberdaron ar gael ar gyfer ei brofi lai na phum mis o'r cyfarfod cyntaf!

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL
NDA Nuclear Decommissioning Authority
Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cymru
Welsh Government